**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
*Drwy e-bost*

24 Mai 2017

Annwyl Huw,

Fel rhan o'n gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn ceisio deall sut mae'r elfen ar gyfer penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau yn cael ei phennu a sut y caiff unrhyw danwariant ei dyrannu wedyn. Byddai'n dda gennym gael eich barn am ddull presennol y Comisiwn.

Ein dealltwriaeth o'r broses gyllideb yw bod y Comisiwn ar hyn o bryd yn gwahanu cyllidebau fel a ganlyn:

- cyllideb weithredol Comisiwn y Cynulliad; a
- chyllid ar gyfer penderfyniadau sy'n dibynnu ar benderfyniad y Bwrdd Taliadau sy'n pennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Rydym yn sylweddoli bod hyn yn caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid graffu yn unigol ar y dyraniadau sydd o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn.

Yn ystod y sesiynau craffu blaenorol, esboniodd y Comisiwn y ffordd y mae'n cyflwyno'r ffigyrau yn ei chyllideb ddrafft mewn perthynas â Phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau. Nododd y Comisiwn fod deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad sicrhau bod *digon* o gyllid ar gael i dalu am y Penderfyniadau. Gan nodi bod hon yn gyllideb sy'n seiliedig ar alw y maen rhaid ei hariannu, dywedodd y Comisiwn ei fod yn pennu'r gyllideb gysylltiedig ar uchafswm yr arian sy'n ofynnol o dan y Penderfyniadau.[1]

[1] Trawsgrifiad y Pwyllgor Cyllid – 5 Hydref 2016

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Mae'r arian a neilltuir ar gyfer Penderfyniadau y Bwrdd Taliadau yn adnodd sydd ar gael i'r Comisiwn at ddibenion eraill, ac fe ragwelir tanwariant[2]. Wrth ddyrannu'r tanwariant, mae gan Fwrdd Buddsoddi ac Adnoddau'r Comisiwn gyfrifoldeb i wneud penderfyniadau ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi ac, felly, y defnydd o unrhyw danwariant. Fel rhan o'i waith craffu ar gyllideb a chyfrifon yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn adolygu'r ffordd y mae tanwariant blynyddol o'r fath yn cael ei ddyrannu. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod rhaid i'r Comisiwn fodloni gofynion y Penderfyniad a hefyd sicrhau adnoddau o dan gyllideb y Comisiwn.

Byddai'n dda gennym gael eich barn am ddull y Comisiwn o bennu ei gyllideb i adlewyrchu'r uchafswm ar gyfer ariannu penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau yn hytrach na rhagolwg ariannol neu amcangyfrif o'r swm y bydd ei angen. A yw hyn yn enghraifft o arfer da ac a yw sefydliadau sector cyhoeddus eraill yn defnyddio dull cyffelyb? Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a yw'r dull hwn yn un rhesymol ynteu a oes methodoleg arall o bosibl.

Trefnwyd inni gynnal sesiwn graffu gyda'r Comisiwn ar 29 Mehefin, felly byddai'n ein helpu i gael ymateb gennych erbyn 20 Mehefin os yn bosibl.

Yn gywir



Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*

---

[2] Trawsgrifiad y Pwyllgor Cyllid - 5 Hydref 2016